CYPE(5)-19-20 - Papur i'w nodi 3

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne,

**Trafodaeth ar Adroddiad Blynyddol 2018-19 Estyn**

Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2018-19 Estyn ar 26 Chwefror 2020.

Roedd yr adroddiad yn sôn am y prif ddatblygiadau yn y byd addysg dros y 3 blynedd diwethaf ac y cydnabod y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwelliannau mewn sectorau gwahanol a rhai o'r heriau sydd ar ôl.

Deallaf fod Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, a Jassa Scott a Claire Morgan, ei Gyfarwyddwyr Strategol, yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 11 Mawrth i drafod yr adroddiad.

Pan fydd Adroddiadau Blynyddol Estyn yn cael eu cyhoeddi rwyf fel arfer yn arwain dadl arnynt yn y Cyfarfod Llawn. Roedd disgwyl i Adroddiad Blynyddol 2018-19 Estyn gael ei drafod yn ystod tymor yr haf. Fodd bynnag, oherwydd argyfwng COVID-19, ni chynhaliwyd y ddadl gan fod y Senedd yn ystyried materion yn ymwneud â'r pandemig a materion brys yn unig.

Rwy'n ymwybodol bod blaenraglen waith y Cyfarfod Llawn ar gyfer mis Medi i fis Rhagfyr wedi'i chyhoeddi ac mae fy swyddogion wedi gofyn a wyf eisiau bwrw ymlaen â dadl ar Adroddiad Blynyddol 2018-19 Estyn.

Oherwydd yr oedi rhwng cyhoeddi adroddiad 2018-19 a dyddiad posibl yn nhymor yr hydref i'w drafod, rwyf wedi bod yn meddwl tybed a fyddai hyn yn ddefnydd effeithiol o amser y Cyfarfod Llawn ac a yw'r Pwyllgor yn teimlo y byddai'n fwy priodol cyflwyno'r adroddiad gerbron y Senedd i'w nodi.

Mae disgwyl i Adroddiad Blynyddol 2019-20 Estyn gael ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr. Byddaf yn arwain dadl ar yr adroddiad hwnnw ar ddechrau 2021.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn croesawu eich barn.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education